Y Gwir Anrh/ Rt Hon Mark Drakeford AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
SeneddMADY@cynulliad.cymru

12 Medi 2019

Annwyl David,

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf 2018, ynghylch rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n clymu'r DU. Mae'n ddrwg gen i na fu'n bosib ymateb yn gynt.

Mae'ch llythyr yn gofyn am unrhyw asesiad yr ydym wedi'i gynnal o'r cytundebau hawliau pleidleisio cilyddol y mae'r DU wedi'u gwneud gyda Lwcsembwrg a Phortiwgal, sydd, fel yr ydych yn ei nodi, yn debyg i'r cytundeb cynharach rhwng y DU a Sbaen. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cytundebau hyn, sy'n cyd-fynd â'n hymrwymiad i sicrhau y bydd gwladolion yr UE, wedi i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn parhau i elwa ar yr un hawliau i gymryd rhan mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru ag sydd ganddynt ar hyn o bryd. Yn yr un modd â'r cytundeb â Sbaen (ac unrhyw gytundebau yn y dyfodol ag unrhyw un o 27 gwlad yr UE), nid oes angen unrhyw newid deddfwriaethol i wireddu'r ymrwymiad hwn, nac i roi effaith i'r rhwymedigaethau y cytunwyd arnynt gan y DU. Mae'r pryder cyfansoddiadol y mae eich llythyr yn cyfeirio ato yr un mor berthnasol yn achos Luxembourg a Phortiwgal â'r cytundeb cynharach rhwng y DU a Sbaen.

Gallaf hefyd gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn hapus mewn egwyddor i roi sicrwydd y byddwn fel arfer yn hysbysu'r Pwyllgor pan fo Llywodraeth y DU yn ymgynghori â ni ar gytundebau rhyngwladol y DU. Serch hynny, gall fod achlysuron pan fo Llywodraeth y DU yn rhannu dogfennau â ni yn gyfrinachol, a bydd angen inni barchu unrhyw gyfyngiadau cyfrinachedd ar ddeunydd a gawn. Rydym wedi ymrwymo i rannu gwybodaeth â'r Cynulliad, ond gwn fod y Pwyllgor yn deall bod yn rhaid hefyd ganiatáu i rai trafodaethau aros o fewn y Llywodraeth. Bydd hefyd angen inni ailasesu'r sefyllfa wrth inni geisio sicrhau'r cytundeb yr ydym wedi galw amdano gan Lywodraeth y DU ynglŷn â rôl y Gweinyddiaethau Datganoledig mewn trafodaethau â'r UE, ac ymgysylltu rhyngwladol yn ehangach.

Cofion gorau

Mark

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.